STATUTORY INSTRUMENTS

1973 No. 1119 (L.17)

JUVENILE COURTS AND OFFENDERS

The Magistrates' Courts (Children and Young Persons) (Welsh Forms) Rules 1973

Made - - - -	*25th June* 1973
Laid before Parliament	*6th July* 1973
Coming into Operation	*1st August* 1973

The Lord Chancellor, in exercise of the powers conferred on him by section 15 of the Justices of the Peace Act 1949**(a)**, as extended by section 122 of the Magistrates' Courts Act 1952**(b)** and section 2 of the Welsh Language Act 1967**(c)**, after consultation with the Rule Committee appointed under the said section 15, hereby makes the following Rules:—

1. These Rules may be cited as the Magistrates' Courts (Children and Young Persons) (Welsh Forms) Rules 1973 and shall come into operation on 1st August 1973.

2.—(1) In these Rules—

(*a*) "English form" means any form prescribed in the Magistrates' Courts (Children and Young Persons) Rules 1970**(d)** corresponding to a Welsh form;

(*b*) "Welsh form" means any form contained in Schedule 1 to these Rules.

(2) The Interpretation Act 1889**(e)** shall apply to the interpretation of these Rules as it applies to the interpretation of an Act of Parliament.

3. The Summary Jurisdiction (Children and Young Persons) (Welsh Forms) Rules 1969**(f)** are hereby revoked.

4. Subject to the provisions of these Rules, Welsh forms may be used, with such variations as the circumstances may require, in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire.

5. Both a Welsh and an English form may be included in the same document.

(a) 1949 c. 101.
(b) 1952 c. 55.
(c) 1967 c. 66.
(d) S.I. 1970/1792 (1970 III, p. 5803).
(e) 1889 c. 63.
(f) S.I. 1969/259 (1969 I, p. 697).

6.—(1) Where only a Welsh form, specified in Part I of Schedule 1 to these Rules, or only the corresponding English form, is used in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire, there shall be added the words in Welsh and English contained in Schedule 2 to these Rules; and the clerk of the magistrates' court or other person responsible for the service of the form shall, if any person upon whom that form is served so requests, provide him with the corresponding English or Welsh form.

(2) In this Rule any reference to serving a document shall include the sending, giving or other delivery of it.

7. In the case of any discrepancy between an English and a Welsh text, the English text shall prevail.

Dated 25th June 1973.

Hailsham of St. Marylebone, C.

SCHEDULE 1 Rule 2

INDEX TO WELSH FORMS

PART I

Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

Number of Form in Magistrates' Courts (Children and Young Persons) Rules 1970	
1.	Summons: offence.
2.	Summons for attendance of parent or guardian of child or young person: offence.
4.	Summons: care proceedings and proceedings in respect of supervision order.
5.	Summons for attendance of parent or guardian of child or young person: care proceedings and proceedings in respect of supervision order.
7.	Notice of care proceedings.
8.	Notice to parent under rule 22.
19.	Notice of extended remand.
27.	Notice of fine etc.: criminal proceedings.
30.	Attendance centre order: offence.
43.	Supervision order: criminal proceedings.
44.	Supervision order: care proceedings.
45.	Supervision order: made on discharge of care order.
46.	Order varying or discharging supervision order.
47.	Attendance centre order on failure to comply with supervision order.
53.	Summons to parent etc.: contribution order.

PART II

Forms not requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

Number of Form in Magistrates' Courts (Children and Young Persons) Rules 1970	
3.	Warrant for arrest of child or young person: offence.
6.	Warrant for arrest: care proceedings and proceedings in respect of supervision order.
9.	Authority to remove to a place of safety.
10.	Warrant to search for or remove child or young person.
11.	Order for removal of foster child or protected child to a place of safety.
28.	Offence condition finding: care proceedings.
38.	Order of recognizance to keep proper care, etc.: criminal proceedings.
39.	Order of recognizance to keep proper care, etc.: care proceedings.
40.	Order of recognizance to keep the peace, etc.: care proceedings.
54.	Contribution order.
55.	Arrears order.

PART I

Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

1

Gwŷs: trosedd

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) [a E.F. tad/mam/gwarcheidwad] o

Cyflwynwyd hysbysiaeth heddiw [ger fy mron i, sydd â'm henw isod] [gerbron (*rhodder yr enw*) [Ynad Heddwch] [Clerc yr Ynadon] gan C.D. eich bod chwi y diffynnydd, a chwithau, fel y credir, yn blentyn/berson ieuanc, ar y dydd o fis , 19 , yn yn y [sir] a enwyd uchod [neu o] wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

[A chyflwynwyd hysbysiaeth ymhellach gan C.D. mai chwi E.F. yw tad neu fam [neu warcheidwad] y diffynnydd.]

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn [y naill a'r llall ohonoch] i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] a fydd yn eistedd yn , i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiegig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod

[neu Rhoddwyd y wŷs hon gan yr Ynad Heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

[*neu* C.Y.,

Clerc Ynadon y Rhanbarth Llys Ynadon a enwyd uchod.]

2

Gwŷs yn galw am bresenoldeb tad neu fam neu warcheidwad plantyn neu berson ieuanc: trosedd

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At C.D. o .

Dygir cyhuddiad yn erbyn A.B., y credir mai plentyn/person ieuanc ydyw, ac y dywedir eich bod chwi yn dad/fam/warchediwad iddo/iddi gan honni ei fod/bod ar y dydd o fis , 19 , yn yn y [sir] a enwyd uchod [*neu* o], wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn a thrwy gydol y gweithrediadau.

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[neu Roddwyd y wŷs hon gan yr Ynad Heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn].

[*neu* C.Y.,

Clerc Ynadon y Rhanbarth Llys Ynadon a enwyd uchod.]

4

Gwŷs: gweithrediadau gofal, a gweithrediadau ynglŷn â gorchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B. (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw) [ac E.F. tad/mam/gwarcheidwad] o .

Gan fod [cyngor sir/bwrdeistref sirol] [C.D. sy'n gwnstabl/berson awdurdodedig] [C.D., goruchwyliwr y plentyn dan sylw] wedi cyflwyno hysbysiad fod y plentyn dan-sylw i'w ddwyn gerbron y llys dan adran [1] [15] Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969 ar y sail a nodwyd yn yr hysbysiad:

A chan fod cais wedi ei wneud yn rheolaidd i'r pwrpas hwnnw i [mi sydd â'm llofnod isod] [*neu rhodder yr enw*] [Ynad Heddwch] [Glerc yr Ynadon].

Gwysir chwi drwy hyn [y naill a'r llall ohonoch] i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn i fod yn bresennol yn y gweithgariadau a gynhelir yn unol â'r hysbysiad hwnnw.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Cyflwynwyd y wŷs hon gan yr Ynad heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

[*nei* C.Y.,

Clerc yr Ynadon dros Ranbarth y Llys Ynadon a enwyd uchod.]

5

Gwŷs yn galw am bresenoldeb tad neu fam neu warcheidwad plentyn neu berson ieuanc: gweithrediadau gofal a gweithrediadau ynglŷn â gorchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At E.F. tad/mam/gwarcheidwad A.B. (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw), y credir mai plentyn/person ieuanc ydyw, o .

Gan fod cyngor sir /bwrdeistref sirol]

[C.D. sy'n gwnstabl/berson awdurdodedig] [C.D., goruchwyliwr y plentyn dan sylw] wedi cyflwyno hysbysiad fod y plentyn dan sylw i'w ddwyn gerbron y llys dan adran [1] [15], Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969 ar y sail a nodwyd yn yr hysbysiad:

A chan fod cais wedi ei wneud yn rheolaidd i'r pwrpas hwnnw i [mi sydd â'm llofnod isod] [*neu rhodder yr enw*] [Ynad Heddwch] [Glerc yr Ynadon]:

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn i fod yn bresennol yn y gweithrediadau a gynhelir yn unol â'r hysbysiad hwnnw.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Cyflwynwyd y wŷs hon gan yr ynad heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

[*neu* C.Y.,

Clerc yr Ynadon dros Ranbarth y Llys Ynadon a enwyd uchod.

7

Hysbysiad am weithrediadau gofal

At Glerc y Llys Ieuenctid yn eistedd yn

Bydded hysbys i chwi fod A.B. o (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw), y credir mai plentyn/person ieuanc ydyw, i gael ei ddwyn gerbron y Llys dan adran 1, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969 ar y sail a nodir yma wedi hyn.

Honnir fod yr amod canlynol wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r plentyn dan sylw, hynny yw (*rhodder manylion yn nhermau adran* 1 (2) (*a*) *i* (*f*) *gan nodi, yn achos paragraff* (*f*), *y trosedd*).

Honnir ymhellach fod ar y plentyn dan sylw angen gofal neu reolaeth, a'i fod yn annhebyg o'i gael oni wneir gorchymyn dan yr adranl honno.

Yn unol â Rheol 14, Rheolau Llysoedd Ynadon (Plant a Phersonau Ieuainc) 1970, danfonir copi o'r hysbysiad hwn at bob un o'r personau canlynol, hynny yw, at:—

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.D.,

[Ar ran cyngor sir/bwrdeistref sirol].

[Cwnstabl].

[Person awdurdodedig].

8

Hysbysiad i dad neu fam dan reol 22

At C.B. o

Bydded hysbys i chwi fy mod wedi achwyn wrth y Llys Ieuenctid yn eistedd yn er sicrhau gorchymyn yn erbyn cyngor sir/bwrdeistref sirol , yn eu gorfodi i ddyfod â A.B. gerbron y Llys am y rheswm fy mod yn methu ei reoli ef/rheoli hi.

Gwrandewir yr achwyniad gan y Llys ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn.

Os dymunwch, gellwch siarad â'r Llys amdano/amdani cyn i'r Llys ddod i benderfyniad ar yr achwyniad.

(*Arwyddwyd*) B.B.

19

Hysbysiad am estyn remandiad

At A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) o a C.D. o a E.F. o (meichiau/meichiafon dros y diffynnydd).

Bydded hysbys i chwi eich bod chwi, y diffynnydd, wedi eich remandio gan y Llys Ieuenctid yn eistedd yn i ymddangos gerbron y Llys hwnnw ar y dydd o fis , 19 , a bod y Llys Ieuenctid a fu'n eistedd yn heddiw yn eich absen wedi eich remandio chwi, y diffynnydd, i ymddangos gerbron y Llys Ieuenctid a fydd yn eistedd yn ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,

Clerc y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

27

Hysbysiad am ddirwy etc: gweithrediadau troseddol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] yn eistedd yn .

At A.B., o .

DYFARNIAD		
Dirwy		
Iawn		
Costau		
Cyfanswm ...		

Dyfarnwyd C.D., o , ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , yn euog heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] o drosedd sef, (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a gorchmynnwyd i chwi, gan eich bod yn dad/fam/warcheidwad i'r C.D. hwnnw, dalu'r swm o , fel y dangosir ar ymyl y ddalen hon, a'r swm hwnnw i'w dalu ar unwaith [neu *erbyn* y dydd o fis , 19] [*neu* yn rhandaliadau wythnosol [*neu* misol] o , a'r rhandaliad cyntaf i'w wneud erbyn y dydd o fis , 19]. Dylid talu naill ai drwy'r post i mi, Clerc y Llys yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*) neu yn bersonol yn (*rhodder yma'r cyfeiriad a hefyd y dyddiau a'r oriau y gellir talu*). Os na thalwch ar unwaith [*neu* erbyn y dydd [iau] a enwyd] gellir [eich carcharu* am (*enwer y cyfnod*) [neu eich restio] neu atafaelu'ch arian a'ch eiddo heb rybudd arall, [oni bai eich bod wedi gofyn am estyn yr amser i dalu, a bod hynny wedi'i ganiatáu i chwi wyn y dydd hwnnw. Gellir gofyn am estyn yr amser naill ai'n bersonol i'r Llys neu drwy lythyr wedi'i gyfeirio ataf fi, Clerc y Llys yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*), ac yn mynegi'n llawn y rhesymau dros ofyn].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.

Clerc y Llys.

SYLWER. Rhaid stampio'n briodol unrhyw ohebiaeth a anfonir drwy'r post. Ni ddylid anfon arian drwy'r post mewn amlenni heb eu cofrestru.

---

*Dilëer oni fydd Llys yr Ynadon, wrth ddyfarnu'n euog, wedi pennu tymor o garchar, dan adran 65(2), Deddf Llysoedd Ynadon 1952, am beidio â thalu ac wedi gohirio arwyddo'r warant garcharu.

30

Gorchymyn canolfan fynychu: trosedd

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] cafwyd A.B. o , yn euog o drosedd y gall ynadon gosbi dyn mewn oed amdano â charchar, am fod y diffynnydd, ar y dydd o fis , 19 , wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*).

A chan fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi hysbysu'r Llys fod y ganolfan fynychu a enwir yma ar gael ar gyfer derbyn o'r Llys bersonau o ddosbarth neu ddisgrifiad y diffynnydd.

A chan fod y Llys wedi ei fodloni fod y ganolfan fynychu yn un y gall y diffynnydd ei chyrraedd yn rhesymol o hawdd o ystyried ei oedran, y moddion sydd ar gael iddo fynd yno, ac unrhyw amgylchiadau eraill:

[A chan fod y Llys o'r fan y byddai mynychu am ddeuddeg awr yn [ormodol, o ystyried oedran y diffynnydd *neu* yr amgylchiadau canlynol, sef (*rhodder manylion*), gan fod y diffynnydd dan bedair ar ddeg oed,] [annigonol, o ystyried yr holl amgylchiadau]:]

Gorchmynnir drwy hyn fod y diffynnydd i fynychu'r ganolfan fynychu yn (*rhodder yma gyfeiriad y ganolfan*) am y tro cyntaf ar y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, ac wedi hynny ar yr adegau a bennir gan y swyddog sydd â gofal y ganolfan honno, nes iddo gwblhau cyfnod mynychu o awr.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys].

43

Gorchymyn goruchwyliad: gweithrediadau troseddol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys leuenctid yn eistedd yn .

Heddiw/*neu* Ar y dydd o fis , 19 ,] cafwyd A.B. o (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd), ac yntau fel y credir wedi ei eni ar , yn euog o drosedd, sef, (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Y mae'n ymddangos i'r Llys fod/y bydd y diffynnydd yn preswylio yn sir/ym mwrdeistref sirol ac yn rhanbarth llys ynadon :

Gorchmynnir drwy hyn fod y diffynnydd i gael ei roi dan oruchwyliad [cyngor y sir/fwrdeistref sirol honno] [cyngor sir/bwrdeistref sirol , sydd wedi cytuno i gael ei benodi'n oruchwyliwr] [swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y rhanbarth llys ynadon hwnnw] (a elwir yma wedi hyn y goruchwyliwr) [am gyfnod o]:

[Gorchmynnir ymhellach fod y diffynnydd i breswylio gyda G.H. o , sydd wedi cytuno â'r gofyniad hwn:]

[Gorchmynnir ymhellach fod y diffynnydd i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan y goruchwyliwr yn unol ag adran 12, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo (*rhodder manylion yn nhermau adran* 12(2))] ac mewn perthynas â chyfarwyddiadau o'r fath a'r gorchymyn hwn, bydd adran 12(3)(a)/(b)/(c) o'r Ddeddf 1969 honno yn dod i rym fel petai cyfeiriad at diwrnod wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad at 90/30 diwrnod:]

[Gorchmynnir ymhellach fod y diffynnydd, am y cyfnod canlynol, sef, , yn derbyn triniaeth (*rhodder manylion am y driniaeth yn nhermau adran* 12(4)), gan fod y Llys wedi ei fodloni, ar dystiolaeth ymarferydd meddygol sy'n gymeradwy at ddibenion adran 28, Deddf Iechyd y Meddwl 1959, fod ei gyflwr meddyliol o'r fath fel bod arno angen triniaeth, ac y gallai ymateb i driniaeth, ond nad yw ei gyflwr yn gwarantu ei gadw yn unol â gorchymyn ysbyty dan Ran V o'r Ddeddf 1959 honno] [ac y mae'r diffynnydd, ac yntau dros bedair ar ddeg oed, wedi cytuno â'r gofyniad hwn:]

[Gorchmynnir ymhellach, er mwyn hwyluso gwaith y goruchwyliwr yn ei ddyletswydd i gynghori, cynorthwyo, a llochesu'r diffynnydd, fod y diffynnydd i gydymffurfio â'r gofynion ychwanegol canlynol:—

1. ei fod i hysbysu'r goruchwyliwr ar unwaith os bydd yn newid ei breswylfod neu ei waith;

2. ei fod i gadw mewn cysylltiad â'r goruchwyliwr yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir o bryd i'w gilydd gan y goruchwyliwr, ac, yn arbennig, ei fod yn derbyn ymweliadau gan y goruchwyliwr yn ei gartref, os bydd y goruchwyliwr yn dymuno hynny:

(*gellir cynnwys y naill neu'r llall o'r gofynion ychwanegol uchod, neu'r ddau*)].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

44

Gorchymyn goruchwyliad: gweithrediadau gofal

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Dygwyd A.B. o (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw), ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , gerbron y Llys heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] dan adran 1, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969:

Ac y mae'r Llys wedi ei fodloni fod yr amod canlynol wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r plentyn dan sylw, hynny yw, (*rhodder manylion yn nhermau adran* 1(2)(*a*) *i* (*f*) *gan nodi, yn achos* (*f*), *y trosedd*), a hefyd fod angen gofal neu reolaeth arno, a'i fod yn annhebyg o'i gael oni wneir gorchymyn ar ei gyfer dan yr adran honno:

Y mae'n ymddangos i'r Llys fod/y bydd y plentyn dan sylw yn preswylio yn sir/ym mwrdeistref sirol ac yn rhanbarth llys ynadon :

Gorchmynnir drwy hyn fod y plentyn dan sylw i gael ei roi dan oruchwyliad [cyngor y sir/fwrdeistref sirol honno] [cyngor sir/bwrdeistref sirol , sydd wedi cytuno i gael ei benodi'n oruchwyliwr] [swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y rhanbarth llys ynadon hwnnw] (a elwir yma wedi hyn y goruchwyliwr) [am gyfnod o] [nes i'r plentyn dan sylw gyrraedd deunaw oed]:

[Gorchmynnir ymhellach fod y plentyn dan sylw i breswylio gyda G.H. o , sydd wedi cytuno â'r gofyniad hwn:]

[Gorchmynnir ymhellach fod y plentyn dan sylw i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan y goruchwyliwr yn unol ag adran 12, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo (*rhodder manylion yn nhermau adran* 12(2))] [ac mewn perthynas â chyfarwyddiadau o'r fath a'r gorchymyn hwn, bydd adran 12(3)(a)/(b)/(c) o'r Ddeddf 1969 honno yn cael yr effaith fod cyfeiriad at diwrnod wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad at 90/30 diwrnod:]

[Gorchmynnir ymhellach fod y plentyn dan sylw, am y cyfnod canlynol, sef , yn derbyn triniaeth (*rhodder manylion am y driniaeth yn nhermau adran* 12(4)), gan fod y Llys wedi ei fodloni, ar dystiolaeth ymarferydd meddygol sy'n gymeradwy at ddibenion adran 28, Deddf Iechyd y Meddwl 1959, fod ei gyflwr meddyliol o'r fath fel bod arno angen triniaeth, ac y gallai ymateb i driniaeth, ond nad yw ei gyflwr yn gwarantu ei gadw yn unol â gorchymyn ysbyty dan Ran V o'r Ddeddf 1959 honno] [ac y mae'r plentyn dan sylw, ac yntau dros bedair ar ddeg oed, wedi cytuno â'r gofyniad hwn:]

[Gorchmynnir ymhellach, er mwyn hwyluso gwaith y goruchwyliwr yn ei ddyletswydd i gynghori, cynorthwyo, a llochesu'r plentyn dan sylw, fod y plentyn perthnasol i gydymffurfio â'r gofynion ychwanegol canlynol:—

1. ei fod i hysbysu'r goruchwyliwr ar unwaith os bydd yn newid ei breswylfod neu ei waith;

2. ei fod i gadw mewn cysylltiad â'r goruchwyliwr yn unol â chyfarwyddiadau o'r fath a roir o bryd i'w gilydd gan y goruchwyliwr ac, yn arbennig, ei fod yn derbyn ymweliadau gan y goruchwyliwr yn ei gartref, os bydd y goruchwyliwr yn dymuno hynny:

(*gellir cynnwys y naill neu'r llall o'r gofynion ychwanegol uchod, neu'r ddau*)].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[neu Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

45

Gorchymyn goruchwyliad a wneir wrth ddiddymu gorchymyn gofal

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Gwnaeth y Llys Ieuenctid yn eistedd yn ar y dydd o fis , 19 , orchymyn gofal yn traddodi A.B. o (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw) ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , i ofal cyngor/sir bwrdeistref sirol :

Mae [y plentyn dan sylw] [E.F. tad/mam/gwarcheidwad y plentyn dan sylw ar ei ran] [y cyngor hwnnw] wedi gwneud cais am ddiddymu'r gorchymyn hwnnw:

Y mae'n ymddangos i'r Llys fod/y bydd y plentyn dan sylw yn preswylio yn sir/ym mwrdeistref sirol ac yn rhanbarth llys ynadon :

Gorchmynnir drwy hyn fod y gorchymyn gofal hwnnw yn cael ei ddiddymu ond bod y plentyn dan sylw yn cael ei roi dan oruchwyliad [cyngor y sir/fwrdeistref sirol a enwyd ddiwethaf] [cyngor sir/bwrdeistref sirol , sydd wedi cytuno i gael ei benodi'n oruchwyliwr] [swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y rhanbarth llys ynadon hwnnw] (a elwir yma wedi hyn y goruchwyliwr) [am gyfnod o] [nes i'r plentyn dan sylw gyrraedd deunaw oed]:

[Gorchmynnir ymhellach fod y plentyn dan sylw i breswylio gyda G.H. o , sydd wedi cytuno â'r gofyniad hwn:]

[Gorchmynnir ymhellach fod y plentyn dan sylw i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan y goruchwyliwr yn unol ag adran 12, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo (*rhodder manylion yn nhermau adran* 12(2))] [ac mewn perthynas â chyfarwyddiadau o'r fath a'r gorchymyn hwn, bydd adran 12(3)(a)/(b)/(c) o'r Ddeddf 1969 yn dod i rym fel petai cyfeiriad at diwrnod wedi ei roi yn lle'r cyfeiriad at 90/30 diwrnod:]

[Gorchmynnir ymhellach, er mwyn hwyluso gwaith y goruchwyliwr yn ei ddyletswydd i gynghori, cynorthwyo, a llochesu'r plentyn dan sylw, fod y plentyn dan sylw yn cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol canlynol:—

1. ei fod i hysbysu'r goruchwyliwr ar unwaith os bydd yn newid ei breswylfod neu ei waith;

2. ei fod i gadw mewn cycylltiad â'r goruchwyliwr yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir o bryd i'w gilydd gan y goruchwyliwr, ac, yn arbennig, ei fod yn derbyn ymweliadau gan y goruchwyliwr yn ei gartref os bydd y goruchwyliwr yn dymuno hynny:

(*gellir cynnwys y naill neu'r llall o'r gofynion ychwanegol uchod, neu'r ddau*)].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

46

Gorchymyn yn amrywio neu'n diddymu gorchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] yn eistedd yn .

Gwnaeth y Llys Ieuenctid yn eistedd yn ar y dydd o fis , 19 , orchymyn goruchwyliad o fewn ystyr Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969 ar gyfer A.B. o (a elwir yma wedi hyn y person dan oruchwyliaeth), ac yntau fel y credir wedi ei eni ar .

[Amrywiwyd y gorchymyn goruchwyliad hwnnw gan orchymyn a wnaed gan y Llys Ieuenctid yn eistedd yn ar y dydd o fis , 19 :]

Mae'r gorchymyn goruchwyliad hwnnw [fel y'i amrywiwyd] yn enwi sir/bwrdeistref sirol a rhanbarth llys ynadon fel y rhanbarthau lle'r ymddengys fod/y bydd y person dan oruchwyliad yn preswylio, ac yn ei roi ef dan oruchwyliad [cyngor y sir/fwrdeistref sirol honno] [cyngor sir/bwrdeistref sirol] [swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y rhanbarth llys ynadon hwnnw], ac oni ddiddymwyd y gorchymyn cyn hynny, bydd yn peidio â bod mewn grym ar (*noder y dyddiad*).

Mae'r gorchymyn goruchwyliad hwnnw/fel y'i amrywiwyd], yn unol ag adrannau 12 a 18(2) o'r Ddeddf 1969 honno, yn cynnwys gofynion arbennig, gan gynnwys y gofyniad/gofynion canlynol (*rhodder many ion am y gofyniad/gofynion y bwriedir ei amrywio/eu hamrywio*):]

Mae [y person dan oruchwyliad] [E.F., tad/mam/gwarcheidwad y person dan oruchwyliad ar ei ran] [y goruchwyliwr] wedi gwneud cais am [amrywio] [ddiddymu] y gorchymyn goruchwyliad hwnnw.

Mae'r goruchwyliwr wedi cyfeirio at y Llys adroddiad gan ymarferydd meddygol yn unol ag adran 15(5) o'r Ddeddf 1969 honno, yn cynnig y dylid [dileu] [amrywio] gofyniad triniaeth iechyd y meddwl am y rhesymau canlynol (*rhodder manylion yn nhermau adran* 15(5)):]

Gorchmynnir drwy hyn fod y gorchymyn goruchwyliad hwnnw [a amrywiwyd fel y nodwyd uchod] yn cael ei [ddiddymu] [amrywio/amrywio ymhellach fel hyn:—
].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.H.,

Clerc y Llys.]

47

Gorchymyn canolfan fynychu am beidio â chydymffurfio â gofynion gorchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys [Ynadon] [Ieuenctid] yn eistedd yn .

Gwnaeth y Llys Ynadon yn eistedd yn ar y dydd o fis 19 , orchymyn goruchwyliad o fewn ystyr Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969 ar gyfer A.B. o (a elwir yma wedi hyn y person dan oruchwyliad), ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar :

Ni wnaethpwyd y gorchymyn goruchwyliad hwnnw dan awdurdod adran 1 o'r Ddeddf honno nau ar ddiddymiad y gorchymyn gofal.

[Amrywiwyd y gorchymyn goruchwyliad hwnnw gan orchymyn a wnaethpwyd gan y Llys Ieuenctid yn eistedd yn ar y dydd o fis , 19 :]

Mae'r gorchymyn goruchwyliad [fel y'i amrywiwyd] yn enwi sir/bwrdeistref sirol a rhanbarth llys ynadon fel y rhanbarthau lle'r ymddengys fod/ y bydd y person dan oruchwyliad yn preswylio, ac yn ei roi ef dan oruchwyliad [cyngor y sir/fwrdeistref sirol honno] [cyngor sir/bwrdeistref sirol] [swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y rhanbarth llys ynadon hwnnw] (a elwir yma wedi hyn y goruchwyliwr):

Mae'r gorchymyn goruchwyliad hwnnw [fel y'i amrywiwyd] yn unol ag adrannau 12 a 18(2) o'r Ddeddf 1969 honno yn cynnwys gofynion arbennig gan gynnwys y gofyniad/gofynion canlynol (*rhodder manylion am y gofyniad/gofynion a dorrwyd neu y cynigir ei amrywio/ eu hamrywio*):

Ar gais y goruchwyliwr, mae'r Llys wedi ei fodloni fod y person dan oruchwyliad wedi methu â chydymffurfio â'r [gofyniad/gofynion] [a enwyd] [hwnnw/hynny]:

Gorchmynnir drwy hyn fod y gorchymyn goruchwyliad [a amrywiwyd fel y dynodwyd uchod] yn cael ei [ddiddymu] [amrywio/amrywio ymhellach fel hyn:— :]

A chan fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi hysbysu'r Llys fod y ganolfan fynychu a enwir yma ar gael ar gyfer derbyn o'r Llys bersonau o ddosbarth neu ddisgrifiad y person dan oruchwyliad:

A chan fod y Llys wedi ei fodloni fod y ganolfan fynychu yn un y gall y person dan oruchwyliad ei chyrraedd yn rhesymol o hawdd o ystyried y moddion sydd ar gael i'r plentyn dan sylw fynd yno, ac unrhyw amgylchiadau eraill:

[A chan fod y Llys wedi ei fodloni y byddai mynychu am ddeuddeg awr yn annigonol o ystyried yr holl amgylchiadau:]

Gorchmynnir [ymhellach] fod y person dan oruchwyliad, oherwydd y methiant hwnnw, i fynychu'r ganolfan fynychu yn , am y tro cyntaf ar y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, ac wedi hynny ar yr adegau a bennir gan y swyddog sydd â gofal y ganolfan honno, nes iddo gwblhau cyfnod mynychu o awr.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

53

Gwŷs i dad/mam, etc: gorchymyn cyfrannu

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At C.D. o .

Gwnaed achwyniad heddiw i [mi sydd â'm henw isod] [*neu rhodder yr enw*] [Ynad Heddwch] [Glerc yr Ynadon] gan gyngor sir/bwrdeistref sirol eich bod yn agored i dalu cyfraniadau dan adran 86, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933 ar gyfer A.B., person sydd yng ngofal y cyngor hwnnw:

Gwysir chwi, felly, i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn i ddangos achos pam na ddylid gwneud gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i chwi gyfrannu swm wythnosol y tybir gan y Llys ei fod yn gymwys, gan ystyried eich adnoddau ac yn unol ag adran 62, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Cyflwynwyd y wŷs hon gan yr Ynad Heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn]

neu C.Y.,

[*neu* C.Y.,

Clerc Ynadon y Rhanbarth Llys Ynadon a enwyd uchod].

Part II

Forms not requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

3

Gwarant i restio plentyn neu berson ieuanc: trosedd

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid .

Cyflwynwyd hysbysiaeth ar lw [neu gadarnhad] heddiw ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan C.D. fod A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd), y credir mai plentyn/person ieuanc ydyw, ar y dydd o fis , 19 , yn yn y [sir] a enwyd uchod [*neu* o], wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Gan hynny, gorchmynnir chwi drwy hyn i restio'r diffynnydd ar unwaith a'i ddwyn gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] a fydd yn eistedd yn i ateb yr hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

(*Nodiad lle caniateir mechniaeth*)

Gorchmynnir fod y diffynnydd wedi iddo gael ei restio i'w ryddhau ar fechniaeth, os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o , gyda mechiau/ o feichiafon am [yr un] ei fod yn ymddangos gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] am o'r gloch y bore/prynhawn pan fydd y Llys yn eistedd nesaf [*neu* ar y dydd o fis , 19 .]

[Bydd ymrwymiad y diffynnydd dan yr amod [au] canlynol (*rhodder manylion*).]

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

6

Gwarant i restio: gweithrediadau gofal a gweithrediadau ynglŷn â gorchymyn goruchwyliad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

[Gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] yn eistedd yn].

At bob un o gwystabliaid .

[Gan fod cyngor sir/bwrdeistref sirol] [C.D. sy'n gwnstabl/berson awdurdodedig] [C.D., goruchwyliwr y plentyn dan sylw a enwir yma wedi hyn] wedi cyflwyno hysbysiad fod A.B. o (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw) i'w ddwyn gerbron y llys dan adran [1] [15], Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969 ar y sail a nodwyd yn yr hysbysiad:

[A chan fod y plentyn dan sylw wedi ei wysio i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] a fydd yn eistedd yn i fod yn bresennol yn y gweithrediadau a gynhelir yn unol â'r hysbysiad hwnnw:]

[A chan fy mod i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, wedi fy modloni gan dystiolaeth ar lw/gadarnhad na ellir cyflwyno'r wŷs honno:]

[A chan fod y Llys wedi ei fodloni gan dystiolaeth ar lw/gadarnhad fod y plentyn dan sylw heb ymddangos i ateb y wŷs honno, ond bod y wŷs wedi ei chyflwyno iddo o fewn amser a ymddengys i'r Llys yn rhesymol, cyn y gwrandawiad [gohiriedig]:]

[A chan fod y Llys wedi ei fodloni gan dystiolaeth ar lw/gadarnhad fod y plantyn dan sylw, ar ôl bod yn bresennol ar achlysur cynharach mewn gweithrediadau a gynhaliwyd yn unol â'r hysbysiad hwnnw, heb ymddangos yn y gwrandawiad gohiriedig a'i fod wedi cael hysbysiad digonol am amser a lle y gwrandawiad gohiriedig:]

Gorchmynnir chwi drwy hyn i ddod â'r plentyn dan sylw gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] a fydd yn eistedd yn , neu gerbron ynad heddwch ar unwaith, neu beth bynnag cyn pen deuddeg awr a thrigain.

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

(*Nodiad lle caniateir mechniaeth*)

Gorchmynnir fod y plentyn dan sylw, wedi iddo gael ei restio, i'w ryddhau ar fechniaeth os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o gyda meichiau/ o feichiafon am [yr un] ei fod yn ymddangos gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] a fydd yn eistedd yn am o'r gloch y bore/prynhawn yn eisteddiad nesaf y Llys hwnnw (*neu* ar y dydd o fis , 19]. [Bydd ymrwymiad y plentyn dan sylw yn unol â'r amod(au) canlynol (*rhodder manylion*)].

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

9

Awdurdod i symud i le diogel

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Y mae C.D. o (a elwir yma wedi hyn yr ymgeisydd) wedi gwneuthur cais heddiw dan adran 28(1), Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969, am awdurdod i gadw a chymryd i le diogel A.B. o , plentyn neu berson ieuanc (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw):

Ac yr wyf fi, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, wedi fy modloni fod gan yr ymgeisydd achos rhesymol dros gredu (*rhodder manylion am yr hyn a gredir yn nhermau adran* 28(1) (*a*), (*b*), *neu* (*c*)), ac yr wyf drwy hyn yn caniatáu'r cais:

A gellir cadw'r plentyn dan sylw mewn lle diogel ar sail yr awdurdod am gyfnod o diwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad hwn.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

10

Warant i chwilio am blentyn neu berson ieuanc, neu i'w symud

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid

Cyflwynwyd hysbysiaeth ar lw [*neu* gadarnhad] heddiw ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan C.D. o , person sy'n gweithredu er lles plentyn neu berson ieuanc, sef (*rhodder enw a chyfeiriad neu fanylion eraill digon i'w adnabod*) (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw) fod achos rhesymol dros dybio (*rhodder manylion yn nhermau adran* 40(1) (*a*) *neu* (*b*), *Deddf Plant a Phersonau Ieuainc* 1933):

[Awdurdodir chwi drwy hyn i chwilio am y plentyn dan sylw, ac os darganfyddir fod (*rhodder manylion yn nhermau adran* 40(1)), i'w gymryd i le diogel:]

[Awdurdodir chwi drwy hyn i symud y plentyn dan sylw i le diogel wedi chwilio neu heb chwilio amdano:]

[Ac i'r dibenion hyn, awdurdodir chwi drwy hyn i fynd i mewn i (*enwer y tŷ etc*):]

[Gorchmynnir drwy hyn na chiaff C.D. fod yn eich cwmni/fod rhaid i ymarferydd meddygol sydd â'r cymwysterau priodol fod yn eich cwmni wrth weithredu ar y warant hon].

A gellir cadw'r plentyn dan sylw mewn lle diogel dan awdurdod y warant hon nes y gellir ei ddwyn gerbron llys ieuenctid, ond na chaiff y plentyn dan sylw ei gadw felly am gyfnod hwy na diwrnod.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.G.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

11

Gorchymyn i symud plentyn maeth neu blentyn dan ymgeledd i le diogel

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

[Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn].

At bob un o gwnstabliaid [ac at C.D. o , person a awdurdodwyn i ymweld â phlant maeth/dan ymgeledd.

[Gan fod achwyniad wedi ei wneud heddiw gan gyngor sir/bwrdeistref sirol [gan fod cais wedi ei wneud i mi, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan C.D. o , person a awdurdodwyd i ymweld â phlant maeth/dan ymgeledd] ar y sail fod A.B. o , plentyn maeth/dan ymgeledd (a elwir wedi hyn y plentyn) yn (*noder yn fyr ar ba sail y gwneir yr achwyniad neu'r cais*):

[Gan fod prawf wedi ei roi fod iechyd neu les y plentyn yn debyg o fod mewn perygl:

Gorchmynnir drwy hyn fod y plentyn [a phob plentyn maeth arall a gedwir yn (*enwer y lle*)] i'w symud i le diogel.

A gellir cadw'r plentyn [ac unrhyw blentyn maeth arall a symudir felly] mewn lle diogel oherwydd y gorchymyn hwn nes y rhoir ef yn ôl i'w fam neu ei dad, perthynas, neu warcheidwad, neu nes y gellir gwneud trefniadau eraill, ond na chaiff y plentyn [ac unrhyw blentyn maeth arall a symudir felly] ei gadw felly am gyfnod hwy na diwrnod.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

28

Dyfarniad ar amod trosedd: gweithrediadau gofal

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn].

Dygwyd A.B. o (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw), ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , gerbron y Llys heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] dan adran 1, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969:

A honnwyd fod yr amod canlynol wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r plentyn dan sylw, hynny yw, ei fod yn euog o drosedd, sef, (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Dyfernir drwy hyn fod y plentyn dan sylw yn euog/ddieuog o'r trosedd hwnnw.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

38

Gorchymyn ymrwymiad i gadw gofal priodol etc: gweithrediadau troseddol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys [Ieuenctid] [Ynadon] yn eistedd yn .

Dyfarnwyd A.B. o (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , yn euog heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] o drosedd, sef, (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Gorchmynnir drwy hyn fod E.F. o , tad/mam/gwarcheidwad y diffynnydd sydd wedi cytuno i'r gorchymyn hwn gael ei wneud, yn gwneud ymrwymiad ar unwaith yn y swm o i gymryd gofal priodol o'r diffynnydd a'i reoli'n briodol [am gyfnod o] [nes i'r diffynnydd gyrraedd deunaw oed].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

39

Gorchymyn ymrwymiad i gadw gofal priodol, etc: gweithrediadau gofal

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Dygwyd A.B. o (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw) ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , gerbron y Llys heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] dan adran 1, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969.

Ac y mae'r Llys wedi ei fodloni fod yr amod canlynol wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r plentyn dan sylw, hynny yw (*rhodder manylion yn nhermau adran* 1(2)(*a*) *i* (*f*) *gan nodi, yn achos* (*f*), *y trosedd*), a hefyd fod angen gofal neu reolaeth arno, a'i fod yn annhebyg o'i gael oni wneir gorchymyn ar ei gyfer dan yr adran honno:

Gorchmynnir drwy hyn fod E.F. o , tad/mam/gwarcheidwad y plentyn dan sylw, sydd wedi cytuno i'r gorchymyn hwn gael ei wneud, yn gwneud ymrwymiad ar unwaith yn y swm o i gymryd gofal priodol o'r plentyn dan sylw a'i reoli'n briodol [am gyfnod o] [nes i'r plentyn dan sylw gyrraedd deunaw oed].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

40

Gorchymyn ymrwymiad i gadw heddwch, etc: gweithrediadau gofal

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron y Llys Ieuenctid yn eistedd yn .

Dygwyd A.B. o , person ieuanc ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar gerbron y Llys heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 .] dan adran 1, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1969:

Ac y mae'r Llys wedi ei fodloni fod yr amod canlynol wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r person ieuanc hwnnw, hynny yw, ei fod yn euog o drosedd sef (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a hefyd fod angen gofal neu reolaeth arno, a'i fod yn annhebyg o'i gael oni wneir gorchymyn ar ei gyfer dan yr adran honno:

Gorchmynnir fod y person ieuanc hwnnw, sydd wedi cytuno i'r gorchymyn hwn gael ei wneud, yn gwneud ymrwymiad ar unwaith yn y swm o , [gadw heddwch] [ac] [ymddwyn yn weddus] am gyfnod o o ddyddiad y gorchymyn hwn.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

54

Gorchymyn cyfrannu

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Gwnaed achwyniad gan gyngor sir/bwrdeistref sirol fod E.F. o (a elwir yma wedi hyn y cyfrannwr) yn agored i dalu cyfraniadau dan adran 86, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933, fel tad/mam A.B., ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar ac sydd yng ngofal y cyngor hwnnw (a elwir yma wedi hyn y plentyn dan sylw):

Awgrymodd y cyngor hwnnw, mewn hysbysiad ysgrifenedig a roddwyd i'r cyfrannwr ar y dydd o fis , 19 , gyfraniad wythnosol o [ond nid yw'r cyngor hwnnw a'r cyfrannwr wedi cytuno ar swm y cyfraniad o fewn un mis wedi'r dyddiad hwnnw] [a chytunodd y cyfrannwr â swm y cyfraniad ond y mae wedi methu talu'r cyfraniad oedd yn ddyledus ar gyfer (*noder yr wythnos*):]

Gorchmynnir drwy hyn, yn unol ag adran 87 o'r Ddeddf 1933 honno fod y cyfrannwr yn talu i'r cyngor hwnnw swm wythnosol o nes i'r plentyn dan sylw beidio â bod yng ngofal y cyngor hwnnw, neu iddo gyrraedd un ar bymtheg oed cyn hynny, ac eithrio ar gyfer cyfnodau, os bydd rhai, y bydd, y cyngor hwnnw yn caniatáu i'r plentyn fod yng ngofal a than reolaeth tad/mam, gwarcheidwad, perthynas, neu gyfaill:

[A gorchmynnir ymhellach fod y cyfrannwr yn talu'r swm o ar gyfer costau.]

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

55

Gorchymyn Ôl-ddyledion

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Gwnaed achwyniad gan gyngor sir/bwrdeistref sirol fod E.F. o (a elwir yma wedi hyn y cyfrannwr) yn agored i dalu cyfraniadau dan adran 86, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1933 fel tad/mam A.B., ac yntau, fel y credir, wedi ei eni ar , ac sydd yng ngofal y cyngor hwnnw, ar gyfer cyfnod o ddiffygdalu pan nad oedd gorchymyn mewn grym dan adran 86 o'r Ddeddf 1933 honno, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrannwr dalu'r cyfraniadau hynny, ac y mae'r cyngor hwnnw wedi gwneud cais am orchymyn ôl-ddyledion:

Awgrymodd y cyngor hwnnw, mewn hysbysiad ysgrifenedig a roddwyd i'r cyfrannwr ar y dydd o fis , 19 , gyfraniad wythnosol o [ond nid yw'r cyngor hwnnw a'r cyfrannwr wedi cytuno ar swm y cyfraniad o fewn un mis wedi'r dyddiad hwnnw] [a chytunodd y cyfrannwr â swm y cyfraniad, ond y mae wedi methu talu'r cyfraniad oedd yn ddyledus ar gyfer (*noder yr wythnos*):]

Y mae'r Llys wedi penderfynu mai cyfnod y diffygdaliad yw .

Gorchmynnir drwy hyn, yn unol ag adran 30, Deddf Plant a Phersonau Ieuainc 1963, fod y cyfrannwr yn talu i'r cyngor hwnnw swm wythnosol o am gyfnod o wythnos.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Drwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

SCHEDULE 2

Rule 5

Darperir y ddogfen non yn Gymraeg/Saesneg os bydd arnoch ei heisian. Dylech wnend cais yn ddi-oed i Glerc Llys yr Ynadon (*rhodder yma'r cyfeiriad*).....

This document will be provided in Welsh/English if you require it. You should apply immediately to the Clerk of the Magistrates' Court (address).....

EXPLANATORY NOTE

(*This Note is not part of the Rules.*)

These Rules replace the Summary Jurisdiction (Children and Young Persons) Rules 1969. They provide for the use of Welsh forms in proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire involving children and young persons . They include provision authorising the use of bilingual forms in connection with such proceedings and provide that in certain cases a person served with a form in one language may require the form in the other language.

SI 1973/1119
ISBN 0-11-031119-1

